




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Addoldai Hanesyddol yng Nghymru

CYNLLUN GWEITHREDU



 Cadw

Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Addoldai Hanesyddol yng Nghymru

Cyflwyniad

Mae i addoldai le arbennig yn amgylchedd hanesyddol Cymru. Maent yn adeiladau cain. Mae cymaint â 3,000 o addoldai wedi'u rhestru — gan gynnwys 214 gradd I — sy'n dangos eu harwyddocâd yn bensaernïol ac yn hanesyddol. Ond mae ansawdd eu pensaernïaeth a'u crefftwaith hefyd yn adlewyrchu eu pwysigrwydd ym mywyd diwylliannol Cymru ar hyd y canrifoedd.

Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd ein haddoldai hanesyddol ledled Cymru o dan fygythiad ar hyn o bryd am nifer o resymau, gan gynnwys cynulleidfaoedd yn mynd yn llai, amharodrwydd i ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol neu'r capasiti i'w symud yn eu blaen. Ar hyn o bryd, mae tua 10% o addoldai rhestredig dan fygythiad neu'n fregus. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar ddata presennol gan arolwg Cymru gyfan o gyflwr adeiladau rhestredig a'r defnydd a wneir ohonynt. Fodd bynnag, heb ymyrraeth, mae'n amlwg o'r dadansoddiad o dueddiadau presennol y bydd y ffigur hwn yn codi wrth i fwy o adeiladau beidio â chael eu defnyddio'n rheolaidd ac wrth i'r adnoddau sydd ar gael i ofalu amdanynt leihau.

Er gwaethaf y pryderon am y nifer gynyddol o adeiladau sydd mewn perygl, dylid cydnabod bod llawer o gynulleidfaoedd ledled Cymru yn ffynnu ac y bydd hynny'n parhau i ddigwydd yn y dyfodol.

Nod y cynllun gweithredu strategol hwn felly, yw darganfod ffyrdd y gall yr adeiladau hyn, y mae meddwl mawr ohonynt, gadw neu adennill eu gwerth wrth galon cymunedau Cymru, gan gynnal neu wella eu harwyddocâd. Dylai'r cynllun helpu i gefnogi'r gwaith o reoli newid er mwyn iddo fod yn ymatebol i'r gwerth amrywiol a allai fod i'r adeiladau a galluogi i ystod lawn o

opsiynau gael eu hystyried wrth nodi trefniadau priodol er mwyn eu defnyddio a gofalu amdanynt yn y dyfodol. I'r perwyl hwn, mae'r cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar bobl a chymunedau yn defnyddio, yn mwynhau ac yn gofalu am ein haddoldai hanesyddol.

Er mwyn gwireddu'r canlyniadau hyn, mae angen i'r holl rhanddeiliaid gydweithio er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd y dreftadaeth unigryw hon a chynnig cymorth i'r cynulleidfaoedd a'r cymunedau sy'n gofalu amdani. Mae angen dull gweithredu traws sector i ddwyn ynghyd y llywodraeth, yr enwadau, cyrff ac asiantaethau eraill, a'r cymunedau unigol sydd â rôl i'w chwarae er mwyn gofalu amdanynt ynghyd â diddordeb yn eu dyfodol. Mae'r trafodaethau sydd wedi'u cynnal â rhanddeiliaid wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r dull hwn o weithredu.

Er mai'r flaenoriaeth yw diogelu dyfodol ein haddoldai rhestredig, rydym yn cydnabod gwerth treftadaeth leol i gymunedau lleol ac yn cydnabod yr arwyddocâd a allai fod i adeiladau anrhestredig. Rydym hefyd yn cydnabod y gall gwerth adeiladau rhestredig i gymunedau lleol amrywio, ac y gall eu capasiti i newid amrywio hefyd. Er enghraifft, gallai capel gwledig syml fod yn anoddach ei newid neu i newid ei ddefnydd na chapel trefol mawr gyda gofod atodol.

Bwriad y cynllun gweithredu yw bod yn berthnasol i bob adeilad a oedd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf fel addoldy. Ni chaiff ei gyfyngu gan enwad neu gred, nac ychwaith gan p'un a yw'r adeilad yn cael ei ddefnyddio neu a oes angen diben arall iddo. Bwriedir iddo fod yn berthnasol i unrhyw adeilad sydd o werth cydnabyddedig, a allai gynnwys gwerth cymdeithasol a diwylliannol yn ogystal ag arwyddocâd pensaernïol a hanesyddol.

Trefnir y cynllun gweithredu o amgylch tair thema, sef gwybodaeth a dealltwriaeth, gofalu am adeiladau, a gweithio â chymunedau.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae deall arwyddocâd addoldai hanesyddol unigol yn helpu pobl i'w mwynhau ac i ymgysylltu â hwy. Mae deall eu harwyddocâd hefyd yn llywio'r gwaith o reoli newid.

Mae angen data sylfaenol ar gyflwr, patrwm defnydd a gwerth cymharol wrth wneud penderfyniadau strategol ynglŷn â'u dyfodol. Mae corff sylweddol o wybodaeth am werth a chyflwr addoldai hanesyddol yn bodoli eisoes. Fodd bynnag, mae rhai bylchau yn ein dealltwriaeth (er enghraifft, mae tuedd i ni wybod llai am adeiladau o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif o'u cymharu ag adeiladau hŷn) ac nid yw'r wybodaeth wedi'i chasglu ynghyd mewn ffordd glir bob tro. Mae corff sylweddol o wybodaeth hefyd ar gael ynglŷn â gwaith cynnal a chadw, gofalu ac addasu. Dylid rhoi blaenoriaeth i wneud yn siŵr bod y wybodaeth hon yn hygyrch i'r rhai sydd ei hangen fwyaf, yn enwedig ar lefel gynulleidfaol, ac ar ffurf sy'n cefnogi'r dasg o wneud penderfyniadau cadarn.

Gofalu am Adeiladau

Mae cadwraeth yn canolbwyntio ar ofalu am adeiladau, sicrhau eu rôl barhaus a rhoi dyfodol cynaliadwy iddynt — gan gynnwys eu haddasu er mwyn gwneud defnydd gwahanol ohonynt lle y bo angen. Mae cadwraeth hefyd yn golygu gwneud yn siŵr bod eu nodweddion arbennig yn cael eu gwarchod, eu gwella a'u mwynhau.

Gall y trefniadau presennol ar gyfer rheoli newid arfaethedig weithio'n dda, ond maent yn aml yn adweithiol. Yn ogystal â'r trefniadau hyn, mae'r cynllun gweithredu yn hyrwyddo dull cydweithredol o reoli asedau a fydd yn hwyluso'r gallu i gael cyngor ac arweiniad priodol

ar yr adeg gywir wrth ystyried anghenion ac opsiynau ar gyfer dyfodol adeiladau. Mae cadwraeth lwyddiannus yn dibynnu ar bobl sydd â'r wybodaeth, yr adnoddau a'r sgiliau i ofalu am adeiladau a'u cynnal er mwyn parhau i'w defnyddio, felly mae'r cynllun gweithredu yn pwysleisio ei bod yn hanfodol adeiladu capasiti drwy fentora, rhoi arweiniad, rhwydweithio a chyfathrebu.

Bydd y cynllun gweithredu yn annog mwy o gysondeb wrth wneud penderfyniadau, yn seiliedig ar egwyddorion cadwraeth sy'n cydnabod yr amrywiaeth lawn o werthoedd treftadaeth ac yn annog dulliau rheoli cynaliadwy.

Gweithio gyda Chymunedau

Mae addoldai hanesyddol, o ran eu natur, yn adnoddau a rennir, ond gellid tansilio hyn os oes pwysau ar eu defnyddwyr craidd, a rhwystrau mynediad i ddefnyddwyr newydd. Mae'r cynllun gweithredu yn annog cynhwysiant, cymryd rhan a gwell mynediad at addoldai a'r hanesion a ddaw â nhw'n fyw.

Un maes o weithgaredd pwysig yw drwy dwristiaeth cred, a all ddod â manteision sylweddol i gymunedau lleol ac i'r economi ehangach. Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth Cred gan Lywodraeth Cymru, dan arweiniad Croeso Cymru, yn 2013. Mae parhau i ehangu mynediad ac i ddatblygu dehongli yn ddwy flaenoriaeth ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol.

Mae cynnal a chadw, gwarchod a chynnal adeiladau er mwyn eu defnyddio yn y dyfodol hefyd yn dibynnu ar bobl yn eu defnyddio, eu mwynhau ac yn elwa ohonynt. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n cynorthwyo ehangu cyfranogi a chymryd rhan, neu sy'n ychwanegu gwerth gwirioneddol at weithgaredd presennol; er enghraifft, drwy ddod â rhanddeiliaid ynghyd i rannu ac i elwa o brofiadau ei gilydd.

Y Cynllun Gweithredu

Mae'r cynllun gweithredu yn defnyddio dull traws-sector wrth fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan addoldai hanesyddol, gan fanteisio ar brofiadau o fannau eraill yn y DU. Bydd Cadw yn helpu i gydgyssylltu gweithgareddau ac yn helpu i gyflwyno'r cynllun gweithredu drwy ganolbwyntio i adnoddau ar y materion hynny lle y gall ychwanegu'r gwerth mwyaf fel o ran rhoi cyngor ac arweiniad a gwella mynediad i wybodaeth. Ond, gall llawer o bartneriaid eraill gymryd camau gweithredu eraill, a dylent wneud hynny.

Yn ogystal â'r mesurau penodol a nodir yn y cynllun gweithredu, bydd Cadw'n parhau i gefnogi a chynghori'r rhai sy'n gofalu am addoldai hanesyddol drwy ei waith arferol. Mae gwaith o'r fath yn cynnwys:

- cynnig cyngor ac arweiniad, a thrafodaethau cyn gwneud cais ynglŷn ag achosion yn ymwneud ag addoldai
- rhaglen grantiau er mwyn helpu i gefnogi addoldai sydd fwyaf dan fygythiad, gan ganolbwyntio'n benodol ar brosiectau a fydd yn sicrhau bod yr adeiladau yn dal i gael eu defnyddio
- rhoi cyngor ac arweiniad ar adeiladau rhestredig.

Hefyd, rydym yn cydnabod bod partneriaid allweddol eisoes yn ymgymryd â gweithgareddau dydd i ddydd a fydd yn ategu'r cynllun gweithredu hwn. Rhoddir gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gan amrywiaeth o sefydliadau, megis Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru, cymdeithasau amwynder, awdurdodau lleol ac enwadau ledled Cymru. Hefyd, gwneir cyfraniadau hanfodol gan sefydliadau megis Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru a Chyfeillion yr Eglwysi Difyfaill wrth ofalu am ein haddoldai segur pwysicaf. Gobeithiwn y bydd y gweithgareddau hyn yn parhau, er gwaethaf popeth.

Mae'r cynllun gweithredu felly'n canolbwyntio ar weithgareddau newydd a fydd yn helpu i gadw addoldai hanesyddol fel asedau cymunedol sydd wrth galon ein cymunedau. Caiff ei roi ar adeg sefydlu corff newydd, Sanctaidd, sef y corff newydd sydd â'r nod o gefnogi addoldai yng Nghymru. Mae'r sefydliad wedi cael ei sefydlu yn sgîl trafodaethau â rhanddeiliaid wedi'u cydlynu gan yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, Yr Eglwys yng Nghymru a Rhwydwaith Twristiaeth Eglwysi Cymru. Mae ei nodau'n cynnwys:

- darparu cefnogaeth a hyfforddiant er mwyn gofalu am addoldai yng Nghymru
- codi arian ar gyfer addoldai yng Nghymru a rhoi grantiau i helpu i roi dyfodol gwell iddynt
- cynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o addoldai yng Nghymru
- gweithredu fel cyfrwng i rannu gwybodaeth.

Bydd y cynllun gweithredu newydd a sefydlu Sanctaidd yn ategu ei gilydd.

Mae'r cynllun gweithredu yn nodi camau gweithredu ar gyfer y tymor byr; y tymor canolig a'r tymor hwy. Mae'n cydnabod bod y problemau a wynebir gan addoldai hanesyddol wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd a bydd angen amser er mwyn datblygu atebion priodol. Felly, nid bod yn weithgaredd 'gorchwyll a gorffen' yw ei fwriad. Rydym o'r farn bod y cam gweithredu cyntaf — sef sefydlu fforwm — yn hanfodol i gefnogi'r dasg o gyflwyno'r cynllun gweithredu, monitro ei gynnydd a chynnig camau gweithredu newydd fel y bo'r angen.

Nid yw'r cynllun gweithredu yn awgrymu y dylid defnyddio un dull cyffredin ar gyfer pob anhawster a wynebir gan gynulleidfaoedd a chymunedau, ond gobeithio bod gan y dull a argymhellir ynddo rywbeth i'w gynnig i bawb sy'n gyfrifol am ein haddoldai.

Cyflwyno	Cam Gweithredu	Arweinydd	Partneriaid	Blaenoriaeth (byrdymor (B), tymor canolig (C) neu hirdymor (H))
----------	----------------	-----------	-------------	---

I. Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Hygyrchedd Gwybodaeth

Mae angen cael gwybodaeth hygyrch i gefnogi dealltwriaeth a gwerthfawrogiad cyffredinol o addoldai, yn ogystal ag arferion curadurol da a phenderfyniadau rheoli cynaliadwy. Drwy archwilio'r cynllun gweithredu gwelir bod swm sylweddol o wybodaeth eisoes ar gael ond nad yw'n hygyrch iawn o anghenraid neu wedi'i chyflwyno ar y lefel anghywir.	a) Sefydliir fforwm i gynrychioli buddiannau pob sector i rannu gwybodaeth ac arfer gorau, adolygu anghenion parhaus a helpu i lywio'r ffordd y caiff y cynllun gweithredu ei gyflawni.	Sanctaidd	Cadw	B
	b) Bydd Cadw yn gwella mynediad at wybodaeth am addoldai hanesyddol drwy wneud rhestrau disgrifiadau yn gyhoeddus ac yn fwy hygyrch.	Cadw		C
	c) Parhau â'r gweithgaredd er mwyn cyfuno gwybodaeth am asedau unigol er mwyn gwella dealltwriaeth o arwyddocâd cymharol adeiladau unigol a'i gwneud yn haws i ddeall y cysylltiadau rhwng safleoedd ac adeiladau ledled Cymru. Yn ogystal â gwaith presennol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ar gapeli, bydd cyfle i bartneriaid eraill megis prifysgolion a chymdeithasau amwynder gefnogi gwaith pellach.	Cadw	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) Cymdeithasau Amwynder Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru	H
	ch) Caiff Porth Cymru Hanesyddol ei ddatblygu fel un pwynt mynediad at gofnodion addoldai.	CBHC		B/C
	d) Caiff Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru ei wella a bydd y cofnodion ar addoldai ar gael i'r cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys ffocws ar addoldai o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif ac adolygiad o addoldai rhestredig o'r ugeinfed ganrif.	CBHC	Cadw	C
	dd) Caiff safle 'siop un stop' ei ddatblygu i gyfeirio'r rhai sy'n gyfrifol am addoldai at wybodaeth. Caiff ei deilwra ar gyfer amrywiaeth o anghenion o enwadau mawr i gynulleidfaoedd unigol.	Sanctaidd	Sanctaidd Cadw Enwadau	C
	e) Bydd yr enwadau'n gweithio gyda Cadw i nodi rhagor o anghenion gwybodaeth a dulliau i gyfleu'r wybodaeth ar lawr gwlad.	Enwadau	Cadw	B

Cyflwyno	Cam Gweithredu	Arweinydd	Partneriaid	Blaenoriaeth (byrdymor (B), tymor canolig (C) neu hirdymor (H))
----------	----------------	-----------	-------------	---

2. Gofalu am Adeiladau

Rheolaeth gynaliadwy

Rhaid rheoli addoldai fel bod eu harwyddocâd a'u cymeriad yn cael eu cynnal ond y gellir nodi a hwyluso ffyrdd newydd neu ategol o'u defnyddio lle y bo'n briodol. Mae arferion presennol yn amrywio ymysg enwadau a chynulleidfaoedd.	a) Datblygir canllawiau newydd ar ddeall arwyddocâd addoldai hanesyddol i gefnogi'r gwaith o reoli newid.	Cadw	CBHC	C
	b) Adolygir gweithdrefnau ar gyfer Eithriad Eglwysig yng Nghymru a chynhyrchir canllawiau newydd.	Cadw		C
Yn aml, nid oes gan gynulleidfaoedd y capasiti i ymateb i'r heriau sy'n eu hwynebu wrth gynnal addoldai.	c) Nodir a rhennir modelau enghreifftiol o ymatebion arfer gorau gan brosiectau a gaiff eu harwain gan gynulleidfaoedd.	Cadw Sanctaidd	Pawb	B
	ch) Sefydlir cronfa ddata 'pobl' i gefnogi cynulleidfaoedd a'u helpu i nodi'r arbenigedd sydd ei angen arnynt, megis penseiri, rheolwyr prosiect, mentoriaid, cynulleidfaoedd sydd wedi bod drwy'r broses ac sydd wedi darganfod atebion.	Sanctaidd	Cadw Awdurdodau Lleol Enwadau	B
	d) Ystyrir mwy o gymorth ymarferol i gynulleidfaoedd ar ffurf swyddogion datblygu, ar yr amod y ceir cyllid ar ei gyfer.	Cadw Sanctaidd		C

Adeiladau segur

Mae angen gwell cynllunio ar gyfer anghenion adeiladau lle mae cynulleidfaoedd yn mynd yn llai.	dd) Anogir enwadau i gynnal archwiliad o'u stoc adeiladau presennol, er mwyn helpu i nodi'r asedau hanesyddol pwysig a fydd dan fygythiad os bydd addoldy'n mynd yn segur yn y tymor canolig/hirdymor. Gellid gwneud hyn yn ganolog, lle y bo'n briodol, neu'n lleol. Bydd Cadw'n cefnogi'r broses hon drwy ddarparu gwybodaeth o'r arolwg o gyflwr a defnydd adeiladau rhestredig.	Enwadau	Cadw Awdurdodau Lleol	B
	e) Anogir trafodaethau cyn gwneud cais gydag awdurdodau lleol pan gynigir cael gwared ar adeilad. Datblygir canllawiau i gynorthwyo cynulleidfaoedd ac asiantau tai wrth farchnata adeiladau sydd ar werth, gan adeiladu ar daflenni ffeithiau sy'n bodoli eisoes a gynhyrchir gan rai awdurdodau cynllunio lleol.	Enwadau	Cadw Awdurdodau Lleol Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru	C

Cyflwyno	Cam Gweithredu	Arweinydd	Partneriaid	Blaenoriaeth (byrdymor (B), tymor canolig (C) neu hirdymor (H))
	f) Datblygir pecyn cymorth neu fap trywydd i gefnogi arfarniadau o opsiynau er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o ystyried y defnydd y gellir ei wneud o adeilad yn y dyfodol.	Cadw	Pawb	C
	ff) Cynhyrchir canllawiau ar reoli asedau a gwaredu adeiladau.	Cadw		C
Mae'r sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am yr addoldai segur presennol dan bwysau ac nid oes ganddynt yr adnoddau i gymryd cyfrifoldeb am adeiladau newydd	g) Bydd Cadw'n gweithio gydag Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru a Chyfeillion yr Eglwysi Difyfaill i adolygu eu prosesau caffael, eu cyllid yn y dyfodol a'u cynaliadwyedd.	Cadw	Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru Cyfeillion yr Eglwysi Difyfaill Enwadau	B

3. Gweithio gyda Chymunedau

Rheolaeth Cynaliadwy				
Mae ymgysylltu â'r gymuned yn hanfodol er mwyn cynnal addoldai hanesyddol sy'n parhau i gael eu defnyddio ac yn cael eu defnyddio'n amgen. Yn aml, gall ymgysylltu â'r gymuned leol fod yn allweddol er mwyn canfod atebion cynaliadwy ar gyfer adeiladau.	a) Lledaenu canllawiau a deunyddiau hyfforddi a gynhyrchir gan Croeso Cymru i gynorthwyo ac annog mynediad i ymwelwyr.	Croeso Cymru	Cadw Enwadau Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru	B
	b) Annog y rhai sy'n gyfrifol am addoldai i ymgysylltu â'r rhaglen Drysau Agored flynyddol.	Cadw		B
	c) Cynhyrchu canllawiau i gefnogi cynulleidfaoedd wrth 'farchnata'r' adeilad fel ased defnyddiol at fathau eraill o ddefnydd cymunedol, gan gynnwys canllawiau ar gymorth cyllido posibl.	Sanctaidd	Cadw Cronfa Dreftadaeth y Loteri	B



Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000
Ffacs: 01443 33 6001
E-bost: cadw@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: Cadw.Cymru.gov.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG27228

Clawr Blaen: Eglwys Sant Illtud (adeilad rhestredig gradd I),
Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg
(© Hawlfraint y Goron (2015) Cadw).
Clawr cefn: Capel Tegid (adeilad rhestredig gradd II), y Bala,
Gwynedd (© Hawlfraint y Goron (2015) Croeso Cymru).



Llywodraeth Cymru
Welsh Government